*Dogfen Polisi | Policy Document*

# Monitro, Gwerthuso ac Adolygu
# *Monitoring, Evaluation and Review*

## *Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod*

| | |
|---|---|
| **Adopted By** | Governing Body (Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod) |
| **Dyddiad Mabwysiadu / Adoption Date** | Mehefin 2022 / June 2022 |
| **Dyddiad Adolygu / Review Date** | Mehefin 2024 / June 2024 |

**Mae polisïau Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod ar gael i holl rhanddeiliaid yr ysgol eu gweld ar unrhyw adeg.**

*Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod's policies are available for all school stakeholders to view at any time.*

**Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod**
Pennaeth: Mr. Jamie Hallett | Dirprwy Bennaeth: Mr. Aled Hopton
Ffôn: 01443 875528 | E-bost: ygbpa@caerphilly.gov.uk | Trydar: @yggf123

***Mae staff a Chorff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod wedi ymrwymo i godi safonau, sefydlu disgwyliadau uchel, a hyrwyddo dysgu ac addysgu effeithiol.***

***Yn ganolog i gyflawni'r nod hwn yw cael gweithdrefnau effeithiol mewn lle ar gyfer hunanwerthuso sy'n cynnwys pob aelod o gymuned yr ysgol.***

**Diffiniadau**

Monitro yw'r broses o gasglu tystiolaeth er mwyn ateb cwestiynau am effeithiolrwydd ein hysgol.
Gwerthuso yw pwyso a mesur y dystiolaeth yn erbyn meini prawf ac adrodd ar y canfyddiadau. Adolygu yw penderfynu ar ba weithredu, os unrhyw, sydd ei angen.

**Pwrpas**

Prif bwrpas monitro, gwerthuso ac adolygu yw sicrhau bod pob aelod o gymuned yr ysgol yn perfformio eu rolau yn effeithiol er mwyn cynnal safonau uchel o ddysgu ac addysgu a chynyddu cyflawniadau.

Mae monitro a gwerthuso yn helpu i sicrhau:

- ★ Safonau uchel o addysgu, dysgu a gofal
- ★ Bod pob aelod o'r gymuned yn cyfrannu, yn dysgu ac yn datblygu hyd at oreuon eu gallu
- ★ Cyflawniadau a safonau cyrhaeddiad uchel
- ★ Bod ethos o ddisgwyliadau a llwyddiannau uchel
- ★ Bod polisïau'r ysgol yn cael eu dilyn
- ★ Bod staff yn cyflawni eu cyfrifoldebau
- ★ Bod cyfleoedd cyfartal i staff, plant a rhieni
- ★ Bod amgylchedd yr ysgol yn iach a diogel
- ★ Bod y cynllunio gwella ysgol o safon
- ★ Bod targedau yn cael eu cyflawni
- ★ Bod yr hunanwerthuso ar gyfer pynciau, agweddau a'r ysgol gyfan yn cael eu cynnal
- ★ Bod cyswllt rhwng yr hunan-werthuso a'r Cynllun ôl-arolwg / Cynllun Gwella Ysgol
- ★ Bod y Cynllun ôl-arolwg / Cynllun Gwella Ysgol yn cael ei roi ar waith

**Egwyddorion**

- ★ Dylai pob agwedd o waith yr ysgol gael ei monitro, ei gwerthuso a'i hadolygu
- ★ Dylai pawb fod yn rhan o'r gweithgareddau monitro a gwerthuso a dylent ddeall eu rôl fel rhan o'r broses monitro
- ★ Dylid gwrando ar lais y disgyblion a'r rhieni yn go iawn
- ★ Dylai monitro gydnabod blaenoriaethau sy'n arwain at wella'r ysgol a hyrwyddo safonau uchel
- ★ Dylai monitro greu hinsawdd sy'n galluogi staff i ddatblygu a chynnal agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith

- ★ Dylai monitro dracio cynnydd ar gynlluniau a thargedau ar gyfer gwella a dylid defnyddio monitro, dadansoddi a thrafodaethau i arwain gwella pellach
- ★ Y bwriad yw monitro polisi ac arfer, nid pobl, a meithrin ysbryd o ‘ddatblygu’ yn hytrach na ‘beirniadu’.
- ★ Dylai’r broses ddathlu llwyddiant, cydnabod cryfderau ac adnabod meysydd i’w gwella.
- ★ Dylai’r staff fyfyrio ar eu gwaith eu hunain yn rheolaidd trwy drafod â chydlynwyr, penaethiaid eu hadrannau, cydweithwyr a hyfforddeion.

**Arfer**

Yn Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod, credwn y cyflawnir y llwyddiant mwyaf pan geir trafod agored rhwng staff, Llywodraethwyr a rhieni am bob agwedd o’n gwaith. Felly, rydym yn annog polisi “drws agored” sy’n galluogi monitro anffurfiol i gymryd lle wrth ochr strwythurau mwy ffurfiol sy’n bodoli.

Yn amlwg, bydd rhaid ysturied cyfyngiadau a gweithdrefnau Covid-19 ar hyn o bryd ac o bosib monitro o ddrws y dosbarth.

Mae’r strwythur staffio, sydd â rolau a chyfrifoldebau clir, yn cefnogi rhoi’r polisi hwn ar waith. Mae aelodau’r Uwch Dîm Arwain mewn lle da i fonitro pob agwedd o ddysgu ac addysgu o fewn eu cyfnodau.
Mae gan gydlynwyr cwricwlwm gyfrifoldeb penodol am eu maes ac maent yn cysylltu â’r Uwch Dîm Arwain i godi safonau.
Defnyddir arbenigedd a phrofiad staff a gofynnir am gyngor asiantaethau allanol (e.e. yr Awdurdod Lleol, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg, Estyn, Llywodraeth Cymru) pan fo angen.

Prif ystyriaethau’r broses monitro, gwerthuso ac adolygu yw:

- ★ Pa mor dda ydyn ni’n gwneud?
- ★ Sut ydyn ni’n cymharu ag eraill?
- ★ Beth yw ein cryfderau a’n meysydd i’w gwella?
- ★ Beth arall y dylem ni anelu at ei gyflawni?
- ★ Beth sydd angen i ni ei wneud i wella?
- ★ Oes gennym ni’r profiad a’r arbenigedd i weithredu’r gwelliannau?
- ★ Ydy’r arfer yn gyson ac ydy’r arfer yn adlewyrchu’r polisïau y cytunwyd arnynt?

Daw ein prif drosolwg ar gyfer gwerthuso trwy’r ddogfen Hunan-werthuso a’r Cynllun ôl-arolwg / Cynllun Gwella Ysgol. Mae’r rhain yn ddogfennau cynhwysfawr, cydberthnasol sy’n cynnwys pob agwedd o fywyd yr ysgol ac maent yn rhoi crynodeb o ddatblygiad yr ysgol a’r gweithredoedd sydd eu hangen er mwyn gwella.


Pennaeth: Mr. Jamie Hallett | Dirprwy Bennaeth: Mr. Aled Hopton
Ffôn: 01443 875528 | E-bost: ygbpa@caerphilly.gov.uk | Trydar: @yggf123

**CYFRIFOLDEBAU'R MONITRO**

***Mae'r Pennaeth, y Dirprwy Bennaeth Gweithredo, Y dirprwy Bennaeth a'r Uwch Dîm Arwain yn gyfrifol am Fonitro, Gwerthuso ac Adolygu'r canlynol:***

- Cynnydd a chyrhaeddiad – perfformiad y dosbarth, y grŵp blwyddyn, yr ysgol gyfan
- Cynllunio a chyflenwi'r cwricwlwm
- Safon y dysgu a'r addysgu
- Adnoddau / cyllid
- Cynhwysiant
- Arweinyddiaeth a rheolaeth
- Lles y staff a'r disgyblion
- Presenoldeb a phrydlondeb
- Ymddygiad
- Ethos
- Yr amgylchedd dysgu
- Gweinyddiaeth
- Cyfathrebu e.e. â staff, disgyblion, rhieni, Llywodraethwyr, yr Awdurdod Lleol, asiantaethau allanol ayyb.
- Rheoli'r safle
- Iechyd a Diogelwch
- Boddhad rhieni

**Mae'r strategaethau a ddefnyddir yn cynnwys:**

- Arsylwadau galw heibio e.e. mae'r Pennaeth yn ymweld â phob dosbarth o leiaf unwaith yr wythnos
- Cadw cofnodion yn ystod cyfarfodydd staff
- Cadw cofnodion yn ystod cyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli
- Adolygiad yr Ysgol Gyfan gan gynnwys cymuned gyfan yr ysgol
- Cynllun Gwella Ysgol wedi seilio yn helaeth ar ganfyddiadau Adolygiad yr Ysgol Gyfan a'r hunan-adolygiad blynyddol a gynhelir gan y cydlynwyr ar gyfer eu pynciau/agweddau
- Y cylch rheoli perfformiad
- Arsylwadau'r dysgu a'r addysgu
- Darllen ac arwyddo adroddiad diwedd y flwyddyn pob disgybl i sicrhau eu bod wedi'u llenwi yn gywir (cyfrifoldeb y Pennaeth)
- Craffu ar waith y disgyblion
- Addysgu gwersi'r dosbarthiadau (wedi'i amserlennu)
- Craffu ar arddangosfeydd
- Llunio'r hysbysebion drafft ar gyfer swyddi newydd ar ôl penderfynu ar y sgiliau sydd eu hangen
- Cynorthwyo'r Llywodraethwyr â'r broses o dynnu rhestr fer o ymgeiswyr am swyddi o fewn yr ysgol
- Disgrifiadau swydd ar gyfer pob aelod staff
- Arwain Gwasanaethau
- Goruchwylio disgyblion yn ystod yr awr ginio ac amser egwyl (wedi'i amserlennu)

Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod
Pennaeth: Mr. Jamie Hallett | Dirprwy Bennaeth: Mr. Aled Hopton
Ffôn: 01443 875528 | E-bost: ygbpa@caerphilly.gov.uk | Trydar: @yggf123

- ★ Trefnu cyrsiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus perthnasol ar gyfer staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu (Cyfrifoldeb y Dirprwy Bennaeth)
- ★ Trafod â'r disgyblion
- ★ Trafodaethau / cyfarfodydd â'r rhieni e.e. cyfarfodydd Pontio
- ★ Adroddiad Pennaeth ar gyfer y Llywodraethwyr wedi'i osod ar wefan yr ysgol
- ★ Holiadur blynyddol ar gyfer rhieni
- ★ Dadansoddi data perfformiad e.e. Asesiadau Athrawon ar Ddiwedd Cyfnod Allweddol, Menter Cyfnewid Data Cymru, Ymddiriedolaeth Teulu Fischer, Profion Cenedlaethol (Bydd y cydlynydd Asesu a Dadansoddi Data yn arwain hyn).

***Mae'r Arweinwyr Dysgu yn gyfrifol am Fonitro, Gwerthuso ac Adolygu:***

- ★ Safon y dysgu a'r addysgu yn cynnwys:
  - Glynu at bolisïau'r ysgol
  - Cyflenwi'r cwricwlwm y cytunwyd arno
  - Ansawdd y cynllunio
  - Cynnydd a chyrhaeddiad
  - Cynhwysiant
  - Defnyddio'r staff cefnogi
  - Asesu'r dysgu a'r asesu ar gyfer dysgu
  - Defnydd amser
  - Amgylchedd yr ystafell ddosbarth
  - Cynnydd disgyblion sy'n tangyflawni
  - Marcio
  - Gosod targedau unigol
  - Safonau ar draws yr adran
  - Anghenion Datblygiad Proffesiynol Parhaus
  - Cysondeb ar draws yr adran
  - Athrawon Newydd Gymhwyso yn symud tuag at eu hamcanion
  - Hawl i amser CPA a sut y defnyddir yr amser hwnnw

**Mae'r strategaethau a ddefnyddir yn cynnwys:**

- ★ Darllen a rhoi sylwadau ar gynllunio tymor byr a chanol tymor pob aelod staff o fewn eu hadran
- ★ Arweinwyr tîm Rheoli Perfformiad
- ★ Cytuno ar amcanion a'u hadolygu gyda'r staff fel rhan o Reoli Perfformiad
- ★ Rhan o'r Uwch Dîm Arwain
- ★ Cydweithio'n agos i sicrhau cysondeb o ran ymagwedd
- ★ Cydweithio'n agos â'r cydlynwyr pwnc
- ★ Neilltuo dosbarthiadau i fyfyrwyr ymarfer dysgu a monitro eu perfformiad
- ★ Arsylwadau galw heibio a rhoi atborth
- ★ Rhoi sgwrs ym mis Gorffennaf i rieni'r disgyblion sy'n cychwyn yn y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn yn ystod y mis Medi dilynol
- ★ Cymryd cyfrifoldeb dros archwiliadau o'r adnoddau o fewn eu hadran berthnasol
- ★ Arwain trwy esiampl
- ★ Arwain Gwasanaethau (wedi'i amserlennu)
- ★ Goruchwylio disgyblion yn ystod amser egwyl

- ★ Cyfrifol am rai elfennau o'r amserlennu e.e. Amser Paratoi, Cynllunio ac Asesu a Chynorthwywyr Gwirfoddol sy'n Oedolion o fewn eu hadrannau perthnasol
- ★ Craffu ar lyfrau – safonau, cyflwr
- ★ Arwain cyfarfodydd staff ar gyfer eu hadrannau perthnasol e.e. trefnu'r apwyntiadau ar gyfer y Nosweithiau Rhieni bob tymor
- ★ Arsylwi ymgeiswyr ar y rhestr fer ar gyfer swyddi addysgu yn cynnal gwersi
- ★ Gweithredu fel cynghorydd i'r Llywodraethwyr yn ystod cyfweliadau ar gyfer swyddi addysgu
- ★ Trafodaethau anffurfiol â'r staff
- ★ Mae Arweinydd y Cyfnod Sylfaen yn gyfrifol am Reoli Perfformiad y Cynorthwywyr Dysgu a'u hamserlennu

***Mae'r Cydlynwyr yn gyfrifol am Fonitro, Gwerthuso ac Adolygu:***

- ★ Safonau pynciau neu agweddau'r cwricwlwm
- ★ Gwybodaeth am bwnc neu wybodaeth am agwedd yr athrawon
- ★ Adnabod arfer da
- ★ Cynllunio'r cwricwlwm
- ★ Cynnwys y cwricwlwm
- ★ Argaeledd a defnydd effeithiol o adnoddau
- ★ Cynnydd disgyblion
- ★ Dull asesu disgyblion yr athrawon
- ★ Targedau disgyblion
- ★ Mwynhad a Chyflawniad

**Mae'r strategaethau a ddefnyddir yn cynnwys:**

- ★ Craffu ar waith i gynnwys marcio a gwahaniaethu
- ★ Archwilio'r cynllunio canol tymor ar gyfer eu pwnc / agwedd
- ★ Monitro pynciau / agweddau gan gynnwys arsylwadau gwers fel rhan o'r cylch blynyddol o fewn y Cynllun Gwella Ysgol
- ★ Adrodd ar ganfyddiadau'r monitro i staff unigol
- ★ Rhoi adroddiad ysgrifenedig o ganfyddiadau cyffredinol ac awgrymiadau ar gyfer gwella yn ystod cyfarfod staff
- ★ Dadansoddi canlyniadau – system tracio'r ysgol
- ★ Trafod â'r staff
- ★ Goruchwylio'r disgyblion yn ystod amser egwyl
- ★ Adolygu polisïau a chynlluniau gwaith
- ★ Gweithio'n agos â'r Tîm Cynghori y Gwasanaeth Cyflawni Addysg gan fod yn gyfrifol am y pwnc neu'r agwedd y maent yn ei chydlynu
- ★ Mynychu cyrsiau perthnasol o'r rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus flynyddol
- ★ Adrodd i'r staff ar ddatblygiadau ym maes eu cyfrifoldeb (fel arfer yn ystod cyfarfodydd staff)
- ★ Cynllun Gwella Ysgol
- ★ Llenwi'r ffurflenni hunan-adolygu blynyddol ar gyfer pynciau/agweddau a rhoi copi i'r Uwch Dîm Rheoli.

**Cynhwysiant:**

***Mae'r Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Mwy Galluog a Thalentog yn gyfrifol am Fonitro, Gwerthuso ac Adolygu:***

- ★ Darpariaeth ar gyfer disgyblion ADY
- ★ Cynnydd disgyblion ADY
- ★ Darpariaeth ar gyfer y disgyblion Mwy Galluog a Thalentog
- ★ Cynnydd disgyblion Mwy Galluog a Thalentog
- ★ Defnydd effeithiol o adnoddau yn cynnwys Cynorthwywyr Cymorth ADY
- ★ Cynnydd a darpariaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol

**Mae'r strategaethau a ddefnyddir yn cynnwys:**

- ★ Dadansoddi canlyniadau – system tracio'r ysgol
- ★ Cyfarfodydd adolygu ADY, gan gynnwys Cynlluniau Addysg Unigol
- ★ Mae'r Cydlynydd ADY yn gyfrifol am Reoli Perfformiad y Cynorthwywyr Cymorth Dysgu ADY a'u hamserlennu
- ★ Gweithgareddau wedi'u cynllunio ar gyfer y disgyblion Mwy Galluog a Thalentog
- ★ Gweithio'n agos ag Athro/Athrawes Cefnogi Iaith yr Awdurdod Lleol
- ★ Trafod â'r staff
- ★ Arsylwi'r disgyblion
- ★ Trafod â'r rhieni
- ★ Trafod â gweithwyr proffesiynol eraill e.e. Seicolegwyr Addysg, Athrawon Arbenigol, Therapyddion, cangen Cynhwysiant yr Awdurdod Lleol ayyb.
- ★ Trafodaethau â'r Llywodraethwyr neilltuedig ar gyfer ADY
- ★ Adrodd i is-bwyllgor ADY y Corff Llywodraethu

***Mae'r Athrawon Dosbarth a'r Cynorthwywyr ADY yn gyfrifol am Fonitro, Gwerthuso ac Adolygu:***

- ★ Iechyd a lles y disgyblion sydd yn eu gofal
- ★ Cynnydd y disgyblion tuag at dargedau ac amcanion dysgu unigol
- ★ Effeithiolrwydd cymorth ychwanegol gan oedolion
- ★ Cynnydd a safonau addysgu'r hyfforddeion

**Mae'r strategaethau a ddefnyddir yn cynnwys:**

- ★ Strategaethau asesu ar gyfer dysgu
- ★ Llunio'r cynllunio byr a chanol tymor ar gyfer y dosbarth a'i drosglwyddo i'r Cydlynydd ADY erbyn y dyddiad cyflwyno
- ★ Monitro, gwerthuso ac adolygu targedau disgyblion yn rheolaidd
- ★ Gweithgareddau asesu fel y nodwyd ar yr amserlen weithgareddau
- ★ Adolygu'r targedau Cynllun Dysgu Unigol gyda'r Cydlynydd ADY a'r Cynorthwywyr Cymorth ADY
- ★ Cynnal a chadw cofnodion dosbarth
- ★ Trafod â rhieni e.e. yn ystod y nosweithiau rheini a gynhelir bob tymor
- ★ Goruchwylio'r disgyblion yn ystod amser egwyl
- ★ Gweithio'n agos ag aelodau staff eraill e.e. rhannu arfer da


Pennaeth: Mr. Jamie Hallett | Dirprwy Bennaeth: Mr. Aled Hopton
Ffôn: 01443 875528 | E-bost: ygbpa@caerphilly.gov.uk | Trydar: @yggf123

- Trafod â'r Uwch Dîm Rheoli a'r Cydlynwyr
- Dewis cyrsiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus i'w mynychu o ganlyniad i Reoli Perfformiad ac/neu drafodaethau â'r Uwch Dîm Rheoli

***Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am Fonitro, Gwerthuso ac Adolygu:***

- Safonau a chyflawniadau ar gyfer pob agwedd o waith yr ysgol yn gyffredinol
- Polisiau a gweithdrefnau
- Effeithiolrwydd yr ysgol yn gyffredinol
- Rôl yr ysgol yn y gymuned

**Mae'r strategaethau a ddefnyddir yn cynnwys:**

- Cynnal cyfarfodydd o'r Corff Llywodraethu llawn bob hanner tymor
- Adroddiad ysgrifenedig gan y Pennaeth bob tymor
- Is-bwyllgorau'r Corff Llywodraethu yn cyfarfod yn rheolaidd e.e. Eiddo a Chyllid, ABCh, ADY
- Cyfarfodydd â chydlynydd y cwricwlwm a chydlynwyr eraill e.e. Cydlynydd ADY, y Cyfnod Sylfaen, ABCh, Amddiffyn Plant, Iechyd a Diogelwch (Caiff Llywodraethwyr eu paru â Chydlynydd)
- Pwyllgor Rheoli Perfformiad i fod yn gyfrifol am gylch perfformiad blynyddol y Pennaeth
- Y Cynllun Gwella Ysgol ac adroddiad bob tymor y Pennaeth sy'n cynnwys adran ar y cynnydd tuag at gyflawni'r targedau y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Gwella Ysgol
- Gwahodd gwesteion o'r Awdurdod Lleol ac asiantaethau allanol eraill i siarad â'r cyfarfod llawn neu gyfarfod is-bwyllgor y Corff Llywodraethu e.e. Swyddog Cyllid, Swyddog Adnoddau Dynol, Cydlynydd Partneriaethau ADY, Cynghorydd Iechyd o Lywodraeth Cymru, Cynghorydd Cyswllt ayyb.
- Ymweliadau â'r ysgol e.e. Llywodraethwyr newydd i fynd i'r ystafelloedd dosbarth i gwrdd â'r staff a'r disgyblion
- Llywodraethwr Iechyd a Diogelwch yn cerdded o amgylch yr ysgol i fonitro Iechyd a Diogelwch
- Mynychu rhai o gyfarfodydd Cyngor yr Ysgol
- Mynychu cyrsiau i Lywodraethwyr a drefnir gan yr Awdurdod Lleol
- Trafodaethau anffurfiol â'r staff, y disgyblion a'r rhieni

***Mae'r Rhieni yn gyfrifol am Fonitro, Gwerthuso ac Adolygu:***

- Iechyd a lles eu plant eu hunain
- Safonau a chyflawniadau eu plant eu hunain
- Safonau a chyflawniadau'r ysgol gyfan
- Cynnig cyfleoedd ehangach e.e. gweithgareddau allgyrsiol

**Mae'r strategaethau a ddefnyddir yn cynnwys:**

- Sgyrsiau anffurfiol â'r staff
- Mynychu'r nosweithiau rhieni bob tymor a chyfarfodydd adolygu ADY
- Sylwadau adroddiad cynnydd diwedd y flwyddyn
- Siarad â'u plant


Pennaeth: Mr. Jamie Hallett | Dirprwy Bennaeth: Mr. Aled Hopton
Ffôn: 01443 875528 | E-bost: ygbpa@caerphilly.gov.uk | Trydar: @yggf123

- ★ Mynychu cyngherddau, cystadlaethau chwaraeon ayyb.
- ★ Edrych ar waith eu plant yn ystod nosweithiau rhieni ac ar ddiwedd y tymor pan gaiff samplau o'r gwaith eu hanfon adref
- ★ Edrych ar arddangosfeydd yn ystod nosweithiau rhieni
- ★ Edrych ar wefan yr ysgol
- ★ Adroddiadau Arolwg Estyn

***Mae'r Disgyblion yn gyfrifol am Fonitro, Gwerthuso ac Adolygu:***

- ★ Eu safonau cyflawniad a chyrhaeddiad eu hunain
- ★ Eu cynnydd tuag at gyflawni eu targedau a'u goliau eu hunain
- ★ Eu cyflawniadau e.e. ymddygiad eu hunain
- ★ Eu datblygiad (cymdeithasol, emosiynol, corfforol, deallusol) eu hunain
- ★ Eu cyflawniadau eu hunain y tu allan i'r ysgol

**Mae'r strategaethau a ddefnyddir yn cynnwys:**

- ★ Hunan-asesu gan gynnwys bod yn rhan o'r broses gosod targedau
- ★ Bod yn rhan o'r broses asesu
- ★ Trafod â'r athro/athrawes ddosbarth, rhieni ac oedolion eraill

***Mae'r Awdurdod Lleol / y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn gyfrifol am Fonitro, Gwerthuso ac Adolygu:***

- ★ Effeithlonrwydd yr ysgol yn gyffredinol

**Mae'r strategaethau a ddefnyddir yn cynnwys:**

- ★ Adroddiad Estyn
- ★ Partner Gwella Ysgolion yn ymweld â'r ysgol bob hanner tymor
- ★ Athrawon Ymgynghorol yn ymweld â'r ysgol
- ★ Gweithdrefnau gosod targedau
- ★ Casglu a dadansoddi data yn ganolog e.e. Menter Cyfnewid Data Cymru, Profion Cenedlaethol, Asesiadau Sylfaenol.
- ★ Cofnodion y Corff Llywodraethu
- ★ Adroddiad bob tymor y Pennaeth i'r Llywodraethwyr
- ★ Archwiliadau


Pennaeth: Mr. Jamie Hallett | Dirprwy Bennaeth: Mr. Aled Hopton
Ffôn: 01443 875528 | E-bost: ygbpa@caerphilly.gov.uk | Trydar: @yggf123